# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Jolly Jumpers**

**Meithrinfa Ddydd Jolly Jumpers**
**Albert Town**
**Portfield**
**Hwlffordd**
**SA61 1DX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/04/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Dydd Jolly Jumpers

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Hannah Hurton |
| Lleoedd cofrestredig | 63 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 a 27 Mehefin 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mae'n cynnig lleoedd Dechrau'n Deg. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.  Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu gwneud hynny.  Fodd bynnag, mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r plant yn achlysurol, ar adegau, ac yn canu caneuon Cymraeg gyda nhw. |

terfynol heb ei
gyhoeddi

## Crynodeb

Arolygiad a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19 yw hwn felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo yn y feithrinfa ac mae'r rhieni'n fodlon iawn ar y gofal y mae eu plant yn ei gael. Mae'r plant yn cael budd o'r gofal cynnes a magwrus a gânt gan dîm o staff cyson sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion y plant a'u cadw'n ddiogel. Gwnaeth tîm o staff a'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad addasu'n dda i'r newidiadau roedd angen eu gwneud o ganlyniad i bandemig COVID-19 a gwnaethant gyfleu'r newidiadau hyn i'r rhieni'n dda.

Caiff y plant ofal mewn amgylchedd priodol ac mae cyfleusterau, cyfarpar ac adnoddau addas ar gael iddynt eu defnyddio.

Nid yw trefniadau arwain a rheoli'r lleoliad yn gwbl effeithiol.  Er bod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd ers yr arolygiad diwethaf, mae meysydd eraill i'w gwella wedi cael eu nodi. Fodd bynnag, mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau ac maent yn hyderus am ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae’r plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo yn y feithrinfa hon. Gwelsom blant o bob oedran yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd, a'r plant hŷn yn sgwrsio â staff y feithrinfa.  Cadarnhaodd y rhieni fod eu plant wir yn mwynhau mynychu'r feithrinfa.

Mae'r plant yn cyfleu eu dewisiadau a'u hoffterau am eu bod yn gwybod y bydd staff y feithrinfa yn gwrando arnynt. Mae'r plant yn dewis yr hyn y maent am ei fwyta a'i yfed, a'r gweithgareddau y maent am eu gwneud. Mae'r plant yn gwybod y bydd staff y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn cydsynio cyn iddynt wneud rhywbeth drostynt. Er enghraifft, gofynnodd aelod o'r staff i un o'r plant a oedd am gael help i dynnu ei gôt, a chadarnhaodd ei fod wedi deall yr hyn roedd y plentyn arall am ei gael wrth ddal ei gwpan allan.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn ystyriol o'i gilydd.  Er enghraifft, pan gafodd plentyn ei daro â phêl wrth chwarae yn yr awyr agored, daeth plentyn arall ato gan ddangos pryder a gofyn, “*what happened*?” (beth ddigwyddodd?) Roedd y plant yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd wrth fwyta eu byrbrydau, a gwnaethant chwarae gyda'i gilydd a ffarwelio â'u ffrindiau'n llawen.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd addas i feithrin eu sgiliau unigol.  Caiff y babanod ddigon o le i ymarfer cropian a cherdded, a chânt gyfle i brofi amser ar eu bol o dan oruchwyliaeth agos. Cânt gefnogaeth dda i ddatblygu eu sgiliau i fwydo eu hunain. Caiff y plant hŷn gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu chwarae eu hunain. Cydnabu'r person â chyfrifoldeb fod y mesurau i leihau risgiau a roddwyd ar waith yn sgil y pandemig wedi effeithio ar gyfleoedd i blant feithrin eu sgiliau hunangymorth, ond mae'n gobeithio y bydd y plant yn cael mwy o gyfleoedd i wneud hyn wrth i beryglon y pandemig leihau. Cawsom wybod gan y staff am rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i'r plant ar hyn o bryd, megis dod o hyd i'w henwau eu hunain ar y dillad gwely ar adeg cyntun a meithrin sgiliau newydd er mwyn gwisgo eu sanau, esgidiau a chotiau eu hunain.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad

Mae staff y feithrinfa yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'n effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid addas, gan gynnwys gweithdrefnau mwy dwys er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn glanhau arwynebau a mannau cyffwrdd yn rheolaidd. Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu. Ar ôl ein hymweliad, rhoddodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad system well ar waith ar gyfer cofnodi trafodaethau â gweithwyr proffesiynol eraill mewn perthynas â materion diogelu. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn agos ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn ddiogel pan fyddant yn chwarae. Er enghraifft, roeddent yn annog y plant i ymarfer eu sgiliau cerdded gan wneud yn siŵr eu bod yn gwneud hynny mewn modd diogel. Gwnaethant dynnu sylw un o'r plant pan roddodd gynnig ar ddringo ar ben cegin chwarae. Ar ôl ein hymweliad, aeth y staff ati i wella'r system ar gyfer cadw llygad ar y babanod sy'n cysgu.

Mae staff y feithrinfa yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a charedig. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion a dewisiadau'r plant, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm i ddarparu gofal ymatebol. Er enghraifft, rhoddodd aelod o'r staff faldod a chysur i un o'r plant a oedd wedi cael clec. Gwnaeth y plentyn setlo, a bu'n gwenu ac yn chwythu cusanau yn fuan o ganlyniad i hyn. Roedd aelod arall o'r staff yn cael hwyl gyda'r plant hŷn, gan ganu gyda nhw i gân roeddent yn hoff ohoni. Roedd staff y feithrinfa'n cyfathrebu'n dda â'i gilydd i wneud yn siŵr eu bod yn diwallu anghenion y plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae dealltwriaeth briodol o ddatblygiad plant gan staff y feithrinfa, ac maent yn cynllunio gweithgareddau priodol i'r plant, fel tîm. Mae un aelod o'r staff yn cymryd cyfrifoldeb am y gwaith o gynllunio'n gyffredinol, ac mae'r lleill yn cyfrannu at y gwaith o lunio adnoddau, gwahaniaethu gweithgareddau a rhannu syniadau. Mae staff y feithrinfa yn cadw cofnodion datblygu sylfaenol ar gyfer y plant hŷn. Nid oedd unrhyw gofnodion datblygu ar gyfer plant o dan ddwy oed.  Dywedodd y person cofrestredig wrthym ei bod wedi cynllunio system ar gyfer monitro datblygiad y plant iau ond nid oedd wedi ei rhoi ar waith eto. Mae staff y feithrinfa'n defnyddio rhywfaint o Gymraeg gyda'r plant hŷn, megis cyfarchion a chaneuon syml.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd priodol i'r plant, gyda digon o le iddynt allu archwilio'n annibynnol ac yn ddiogel. Caiff yr amgylchedd fudd o lawer o olau naturiol, ac mae arddangosfeydd priodol a deniadol ar waith gyda rhai labeli dwyieithog. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd addas i'r plant gael cysgu heb neb yn tarfu arnynt, ac roedd nifer priodol o doiledau ar gyfer y plant a oedd yn bresennol yn ystod ein hymweliad.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel.  Mae'r amgylchedd dan do yn lân ac mewn cyflwr da. Ar adeg ein hymweliad, roedd un o'r giatiau a darn o'r cyfarpar chwarae yn yr ardal awyr agored wedi torri ond roedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi nodi hyn. Cawsom gadarnhad bod y rheini wedi cael eu trwsio yn fuan ar ôl ein hymweliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi dechrau gwneud gwelliannau i'r ardal y maent yn ei galw'n ‘the hideout’, y bwriedir y bydd y plant hŷn yn ei defnyddio, ac nid oedd yr ardal hon yn cael ei defnyddio yn ystod ein hymweliad.  Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer yr amgylchedd a mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu. Fodd bynnag, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ystyried yr holl risgiau yn yr asesiadau hyn. Er enghraifft, nid yw'r asesiad risg ar gyfer mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu yn ystyried y risgiau a all godi o weithio unigol neu argyfwng meddygol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu cyfarpar ac adnoddau addas ar gyfer amrywiaeth o oedrannau, diddordebau a galluoedd. Roedd rhai cadeiriau mawr i'r plant hŷn eu defnyddio, er nad oedd y plant yn eu defnyddio yn ystod ein hymweliad. Cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb hefyd fod y lleoliad wedi prynu byrddau y gellir newid eu huchder yn ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer plant o bob oedran. Roedd cadeiriau uchel addas ar gael fel y byddai modd i'r babanod eistedd yn gyfforddus ac yn ddiogel i fwyta. Roedd y teganau a welsom mewn cyflwr da, ac roedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cael nifer o adnoddau newydd yn ddiweddar, yn ogystal â mwy o ddillad tywydd gwlyb i sicrhau bod modd i'r plant wneud mwy o chwarae yn yr awyr agored pan fyddai'n bwrw glaw.

## Arwain a Rheoli

Yn ystod yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd o'r lleoliad, gwnaethom roi hysbysiad diffyg cydymffurfio mewn perthynas â rheoli'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi mynd i'r afael â'r mater hwn ac maent hefyd wedi mynd i'r afael â'r maes arall o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â cheisio barn y plant a'r staff ar gyfer eu hadolygiad o ansawdd y gofal Mae'r radd gyfatebol ‘gwael’ wedi cael ei hadolygu, a'r radd a ddyfernir yn yr arolygiad hwn yw ‘digonol'.

Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon iawn ar y gofal a oedd yn cael ei ddarparu yn y feithrinfa a'r ffordd roedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyfathrebu â nhw. Gwnaethant ganmol y ffordd roedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rheoli'r newidiadau roedd angen eu gwneud o ganlyniad i bandemig COVID-19, a'r ffordd roeddent wedi parhau i ddarparu gofal cyson. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad drefniadau addas ar waith i roi gwybod am y newidiadau yn y lleoliad ac i gyfleu gwybodaeth am lesiant y plant i'r rhieni. Maent yn cyfathrebu â'r rhieni yn unigol ar lafar, drwy e-bost a negeseuon testun, yn ogystal â rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'n glir i'r rhieni bob amser pwy yw'r person cofrestredig sy'n gyfrifol am y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi amrywiaeth o bolisïau addas ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y polisi cwynion na'r polisi diogelu yn cynnwys gwybodaeth gwbl gyfredol. Nid oedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi darparu'r holl fanylion sy'n ofynnol gan y safonau gofynnol cenedlaethol yn y datganiad o ddiben a'r wybodaeth arall. Roedd y ddogfen hon hefyd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth nad oedd yn gyfredol. Mae'r prosesau cadw cofnodion yn foddhaol ar y cyfan, ond nid oedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnod bob amser o'r dos diwethaf o feddyginiaeth a roddwyd gan y rhieni.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer adolygu a gwella'r lleoliad. Roedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau adolygiad ac adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal ym mis Chwefror 2020 a oedd yn ystyried barn partïon perthnasol. Fodd bynnag, nid oeddent wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal ers hynny.

Mae tîm o staff cyson sy'n gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad. Mae trefniadau ar waith ar gyfer arfarnu a goruchwylio'r staff er nad yw'r system hon yn gyson nac yn effeithiol. Roedd pob aelod o'r staff yn cael cyfleoedd i gyfarfod â'u rheolwyr un i un ond roedd cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn dangos nad oedd y cyfarfodydd hyn yn ystyrlon bob amser. Nid yw'r gweithdrefnau recriwtio yn gwbl effeithiol am nad oedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau gwiriadau addasrwydd llawn ar gyfer pob unigolyn cyn iddo ddechrau gweithio gyda'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod nifer digonol o staff yn gweithio gyda'r plant, a'u bod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar gymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd, er bod rhywfaint o oedi wedi bod o ran darparu'r hyfforddiant diweddaraf o ganlyniad i'r pandemig.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Gwella'r system ar gyfer arfarnu a goruchwylio'r staff.
A2 Cyfleu'r glir pwy sy'n gyfrifol am y lleoliad.
A3 Diweddaru'r datganiad o ddiben a'r polisi cwynion a'r polisi diogelu.
A4 Ehangu'r asesiadau risg ar gyfer y lleoliad.
A5 Cadw cofnod o'r dos diwethaf o feddyginiaeth a roddwyd gan y rhieni.
A6 Cadw cofnodion ar ddatblygiad a chynnydd pob plentyn cyn oed ysgol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni | |
|---|---|
| Nid oedd y personau cofrestredig wedi cynnal arfarniadau rheolaidd na sesiynau goruchwylio gyda'r staff. | Rheoliad 29 (3) (a) |
| Nid oedd y personau cofrestredig yn casglu barn y plant na'r staff fel rhan o broses ansawdd y gofal. | Rheoliad 16 (2) (b) [i]<br>Rheoliad 16 (2) (b) [i] |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Nid oedd y person cofrestredig wedi cwblhau gwiriadau addasrwydd llawn ar bob unigolyn a oedd yn gofalu am y plant. | Rheoliad 28 (2) (b) [i] |
| Nid oedd y person cofrestredig wedi cwblhau'r adolygiad ac adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal a ddarperir. | Rheoliad 16 (2) (a) |

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/07/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi